## ROCP 39, Cyfoeth Naturiol Cymru

Senedd Cymru | Welsh Parliament

**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith** | **Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee**

Adolygiad o flaenoriaethau'r Pwyllgor ar gyfer y Chweched Senedd | Review of the Committee's priorities for the Sixth Senedd

Ymateb gan Cyfoeth Naturiol Cymru | Evidence from Natural Resources Wales

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Response to CCEI Committee's Review of Priorities 2023

1. What are your views on the Committee's three strategic priorities: Climate Change; Sustainable Communities: and Protecting and enhancing the natural environment?

Yn ddiweddar, cyhoeddodd Cyfoeth Naturiol Cymru ein cynllun corfforaethol newydd hyd at 2030 – Natur a Phobl yn Ffynnu gyda'n Gilydd, sy'n benllanw adolygiad manwl o dystiolaeth ryngwladol a chenedlaethol ar y blaenoriaethau lle mae angen gweithredu. Mae blaenoriaethau ein cynllun yn canolbwyntio ar dri amcan llesiant:

Erbyn 2030 yng Nghymru:

- natur yn ymadfer
- cymunedau yn gallu gwrthsefyll newid hinsawdd
- llygredd yn cael ei leihau gymaint ag sydd bosibl

Mae'r blaenoriaethau a amlinellir gan y Pwyllgor yn cyd-fynd yn weddol agos â'n hamcanion llesiant. Gan gydnabod y pwysau sydd ar amser y pwyllgor i ystyried y themâu hynny lle gall gael yr effaith fwyaf, rydym yn cefnogi'r themâu eang a nodwyd, a cheir amlinelliad o rai argymhellion pellach isod.

2. To what extent are the Committee's three strategic priorities still relevant, reflecting on social, economic and environmental developments since they were set at the start of the Sixth Senedd?

Er bod y pandemig a'r argyfwng costau byw dilynol wedi tanlinellu cymaint sy'n gallu newid mewn o fewn cyfnod byr, yr argyfyngau natur a hinsawdd yw'r prif fygythiad sy'n parhau i wynebu dynoliaeth ac felly credwn y dylent barhau i fod yn brif ffocws strategol llunwyr polisi.

3. What are your view on the Committee's detailed priorities/outline programme of work for Years 3 to 5 of the Sixth Senedd (set out in its report, Priorities for the Sixth Senedd?

Rydym yn deall fod angen blaenoriaethu'r materion sydd wedi'u cynnwys yn y rhaglen waith yn y dyfodol, ac yn cytuno eu bod yn feysydd sydd angen eu hystyried.

Fodd bynnag, gan fod diddordeb mawr ymysg y cyhoedd yng nghyflwr ein dyfroedd, a hynny yn haeddiannol ddigon yn dwysáu, hoffem awgrymu bod dŵr hefyd yn bwnc i'w

ystyried gan y Pwyllgor – ansawdd a lefelau dŵr. Dŵr yw un o'n nwyddau naturiol mwyaf gwerthfawr, sy'n creu ac yn cynnal yr ecosystemau y mae pob bywyd yn dibynnu arnynt. Ac eto mae cyfuniad cryf o seilwaith sy'n heneiddio, poblogaeth sy'n tyfu, newid hinsawdd a'r llygredd parhaus yn ein dyfroedd sy'n deillio o'r sector ffermio, cwmnïau dŵr, a'r cyhoedd yn gyffredinol, yn golygu nad yw ein dyfroedd o bell ffordd yn agos at y cyflwr yr ydym yn dymuno iddynt fod.

Roedd cyflwyno'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn y DU yn 2003 yn rhoi sylfaen ddeddfwriaethol oedd ei hangen i gryfhau mwy ar y rheoleiddio a'r sylfaen dystiolaeth angenrheidiol i ysgogi buddsoddiad a gwelliannau. Er ein bod yn gwybod nad yw cyflwr ein dyfroedd lle yr hoffem iddo fod, cododd statws cyffredinol ein dyfroedd a gafodd eu hasesu fel 'da' neu 'well' o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr o 32% yn 2009 i 40% yn 2021. Ond ar gyfer naw o'n hafonydd yn ein Hardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) sy'n cael eu gwarchod fwyaf, dim ond 39% a lwyddodd i gyrraedd targedau newydd, llymach ar gyfer ffosffadau a gyflwynwyd gan Safonau Cyffredin y Cydbwyllgor Cadwraeth Natur.

Er bod y materion sy'n effeithio ar ein cyrsiau dŵr yn rhai cymhleth, bydd Adolygiad Prisiau Ofwat sydd ar ddod yn 2024 yn hollbwysig er mwyn sicrhau ein bod yn gweld gwelliannau ym Mherfformiad Amgylcheddol Cwmnïau Dŵr. Bydd yr adolygiad prisiau hwn yn gyrru rhaglen fuddsoddi'r cwmnïau dŵr hyd at 2030, a bydd yn ganolog i ysgogi'r gwelliant yr ydym yn dymuno ei weld er mwyn cyflawni uchelgeisiau COP15.

Yn unol â chais y Prif Weinidog yn y Cyfarfod Llawn ym mis Mai, byddem hefyd yn croesawu adolygiad y Pwyllgor o fodel Glas Cymru a sut y gall gyflawni ar gyfer dŵr yng Nghymru.

Credwn y byddai'n amserol i'r Pwyllgor archwilio'r materion ehangach hyn er mwyn codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r heriau sydd o'n blaenau.

4. To .what extent are the Committee's detailed priorities/outline programme of work still relevant, reflecting on social, economic and environmental developments since they were set at the start of the Sixth Senedd?

Gyda chyhoeddiad adroddiad diweddaraf y Cenhedloedd Unedig ar Newid Hinsawdd, mae'n amlwg bod effaith newid hinsawdd bellach yn cael ei derbyn yn gyffredinol fel bygythiad critigol, yn wir, mae'r ffaith fod gennym Weinidog a Phwyllgor Newid Hinsawdd a Newid Hinsawdd yn y teitl yn dyst i ba mor ddifrifol yr ystyrir hyn yng Nghymru.

Fodd bynnag, yr hyn y mae ein gwaith wedi'i nodi yw, er bod yr angen i liniaru newid hinsawdd yn cael ei gydnabod i raddau helaeth, mae rôl atebion sy'n seiliedig ar natur

wrth fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd yn llawer llai gweladwy, a cheir llai o ffocws ar yr argyfwng natur sy'n rhedeg ochr yn ochr â hyn. Mae atebion sy'n seiliedig ar natur yn allweddol er mwyn mynd i'r afael â'r ddau argyfwng a byddem yn argymell bod y pwyllgor yn ystyried yr elfen hon fel rhan o'i waith wrth graffu ar y targedau bioamrywiaeth statudol.

5. Are there any other matters related to the Committee's priorities/work programme/ways of working that you would like to comment on?

Hoffem ddiolch i staff y Pwyllgor a'u canmol am fod mod hawdd mynd atynt ac am eu cefnogaeth - maen nhw wedi bod yn gymwynasgar ac wedi dangos diddordeb bob amser, ac rydym yn gwerthfawrogi hyn yn fawr.

Pe bai modd, byddem yn ddiolchgar pe gellid rhoi ystyriaeth i amserlennu pwyllgorau eraill y Senedd gan fod ehangder gwaith CNC yn golygu y byddwn yn cael llu o geisiadau am gynrychiolaeth mewn sesiynau pwyllgor - weithiau ar yr un diwrnod, a all fod yn anodd i ni o ran adnoddau ac mae'n golygu na allwn roi'r lefel o gymorth y dymunwn ei darparu.

Er ein bod yn deall bod natur hybrid y trafodion yn golygu y gall sesiynau gael eu cynnal yn hwylus ar-lein, byddem hefyd yn annog y Pwyllgor i gynnal rhai ymweliadau safle wyneb-yn-wyneb fel y gall aelodau weld a phrofi enghreifftiau diriaethol o rai o'r problemau y maen nhw'n craffu arnynt. Byddem yn hapus ddigon i hwyluso unrhyw gyfarfodydd neu ymweliadau perthnasol pe bai'r Pwyllgor yn fodlon gwneud hyn.